**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ADOLYGIAD POLISI AR ADFYWIO CYMUNEDOL: YSTYRIED MATERION SY'N DOD I'R AMLWG

## Mater dan sylw

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar y materion sy'n deillio o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma ar yr adolygiad polisi ar adfywio cymunedol.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y materion yn yr atodiad ac i nodi unrhyw rai eraill a ddylai gael eu cynnwys, ym marn y Pwyllgor, o ganlyniad i'r dystiolaeth sydd wedi dod i law hyd yma.

## Amseru

3. Yn ngoleuni barn y Pwyllgor ar y materion sy'n codi, bydd gwaith yn cael ei wneud ar baratoi rhestr gychwynnol o argymhellion i'w hystyried yn y cyfarfod cyntaf yn ystod tymor yr haf.

## Cefndir

4. Fel rhan o'i adolygiad polisi ar adfywio cymunedol, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymarfer ymgynghori ysgrifenedig yn ogystal â sesiwn ymgynghori llafar gyda nifer o sefydliadau. Hyd yma, mae wedi ymweld â dau ymarferydd yn y De-ddwyrain.
5. Mae cynlluniau ar y gweill i wneud mwy o waith ar yr adolygiad, gan gynnwys un sesiwn arall o dystiolaeth lafar a chyfres o ymweliadau â grwpiau datblygu cymunedol ym mhob un o'r tri rhanbarth economaidd sy'n weddill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhai materion wedi dod i'r amlwg yn sgil y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma a byddai'n ddefnyddiol clywed barn y Pwyllgor arnynt yn ystod y cam hwn.
6. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i lynu wrth yr amserlen ar gyfer yr adolygiad ym mhapur LGH-11-01(p6) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn Gorffennaf 2001.
7. Y garreg filltir nesaf fydd ystyried argymhellion drafft yn nhymor yr haf. Wrth gwrs, fe fydd yn bosibl newid a mireinio'r argymhellion hyn, yng ngoleuni'r gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr adolygiad, fel rhan o'r broses o baratoi adroddiad y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**